

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 22 Gorffennaf 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CYDYMFFURFIO / GWEITHREDU / GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Digwyddiadau 'Byth' – Polisi a Rhestr Digwyddiadau, Gorffennaf 2022

Dyddiad adolygu : Adolygu a diweddarau parhaus yn unol â'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu rhwystrau ac argymhellion diogelwch yn systemig ar gyfer pob math o ddigwyddiad 'byth'.

Gweithredu gan: Byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG

Camau gofynnol: ar unwaith.

Anfonydd: Yr Athro Chris Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru ac Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

Enw(au) cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:
Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio ac Ansawdd: populationhealthcare@llywycymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Dolen at y Rhestr Digwyddiadau 'Byth'; a gyhoeddwyd ar wefan Uned Gyflawni GIG Cymru – [Byth Digwyddiadau - Uned Gyflawni \(gig.cymru\)](#)

Annwyl Gydweithwyr,

Mae Digwyddiadau “Byth” a sut yr ymchwiliir iddynt ac y gweithredir arnynt yn rhan o'r ymgyrch ehangach i wella ansawdd gofal a chanlyniadau i gleifion, fel y nodir yn y *Fframwaith Ansawdd a Diogelwch*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.


Gall Digwyddiadau “Byth” dynnu sylw at wendidau posibl yn y ffordd y mae sefydliad yn rheoli prosesau diogelwch sylfaenol o fewn systemau sy'n bodoli eisoes. Mae'n bwysig, felly, pan fydd Digwyddiad “Byth” yn digwydd, y caiff unrhyw fethiannau mewn gofal eu nodi a'u hymchwilio iddynt yn llawn, ond yn gymesur, waeth beth fo'r canlyniad, yn unol â'r *Polisi ar gyfer Adrodd am Ddigwyddiadau'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion*, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth o ble yn y system y mae mesurau diogelwch wedi methu. Hefyd, bydd edrych ar yr hyn a aeth o'i le yn y system yn helpu sefydliadau i ddysgu gwersi a chymryd camau wedi'u targedu i helpu i atal hynny rhag digwydd eto.

Bydd Uned Gyflawni GIG Cymru yn parhau i ymgysylltu ag NHS England/NHS Improvement ar adolygiadau o'r rhestr Digwyddiadau “Byth”.

Arweiniodd adolygiad diweddar at y penderfyniad i ddileu ‘tynnu dant anghywir’ o'r rhestr Digwyddiadau “Byth” fel y mynegwyd yn fy llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2021. Rhaid parhau i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath ac ymchwilio iddynt yn lleol ac yn genedlaethol os ydynt yn bodloni meini prawf y *Polisi ar gyfer Adrodd am Ddigwyddiadau'n Ymwneud â Diogelwch Cleifion*. Felly, mae'r rhestr Digwyddiadau “Byth” wedi cael ei diweddarau i ystyried y penderfyniad hwn ac mae'n disodli Cylchlythyr lechyd Cymru (WHC/2018/012). Mae hefyd yn dileu dros dro 'mewndiwbio oesoffagaid heb ei ganfod' o'r rhestr tra bod gwaith pellach yn cael ei wneud.

Mae'r rhestr wedi'i diweddarau i'w gweld ar wefan Uned Gyflawni GIG Cymru [Byth Digwyddiadau - Uned Gyflawni \(gig.cymru\)](http://gig.cymru). Bydd y rhestr hon yn parhau i gael ei diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau pellach a bydd Cylchlythyr lechyd yn cael ei gyhoeddi i dynnu sylw'r GIG yng Nghymru at unrhyw newidiadau.

Yr eiddoch yn gywir



Yr Athro Chris Jones

Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru ac Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

Datganiad Polisi

Diffinnir Digwyddiadau “Byth” fel digwyddiadau difrifol y gellir eu hatal yn llwyr oherwydd bod canllawiau neu argymhellion diogelwch ar gael ar lefel genedlaethol ac y dylai pob darparwr gofal iechyd fod wedi’u gweithredu.

Mae gan bob math o Ddigwyddiadau “Byth” y potensial i achosi niwed difrifol i gleifion neu farwolaeth, ond nid oes rhaid i niwed difrifol neu farwolaeth fod wedi digwydd oherwydd digwyddiad penodol iddo gael ei gategoreiddio fel Digwyddiad “Byth”.

Fel gyda phob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion, mae’n ofynnol ymchwilio i Ddigwyddiadau “Byth” yn llawn, ond yn gymesur, yn unol â’r *Polisi ar gyfer Adrodd am Ddigwyddiadau’n Ymwneud â Diogelwch Cleifion* ac maent yn berthnasol i’r holl ofal a ariennir gan y GIG. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ymgysylltu’n ystyrlon â chleifion, teuluoedd a gofalwyr ar ddechrau a thrwy gydol unrhyw ymchwiliad gan sicrhau bod yr ymchwiliad yn agored ac yn dryloyw.

Dysgu o Ddigwyddiadau

Mae dysgu o’r hyn sy’n mynd o’i le mewn gofal iechyd yn hanfodol i atal niwed rhag digwydd yn y dyfodol. Rhaid adrodd am bob digwyddiad ac ymchwilio iddo’n lleol a phan fo’n bodloni’r meini prawf dylid adrodd amdano’n genedlaethol i Uned Gyflawni GIG Cymru. Dylai unrhyw ymchwiliad fod yn gymesur â’r digwyddiad sy’n cael ei adolygu, gan sicrhau bod mesurau diogelu’n cael eu rhoi ar waith ar unwaith, bod camau wedi’u targedu’n cael eu cytuno arnynt a bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad.

Gall Digwyddiadau “Byth” mynych, yn enwedig y rhai o’r un math, nodi problemau parhaus â’r system mewn maes gwasanaeth penodol ac nad yw ymchwiliadau blaenorol wedi’u hamlygu, o bosibl. Yn dilyn ymchwiliad, efallai y bydd angen ymyrraeth ychwanegol wedi’i thargedu i sicrhau bod sylw’n cael ei roi i broblemau systemig ac i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae cleifion a theuluoedd yn rhan bwysig o’r broses ymchwilio a’r gwersi a ddysgir, gan ddarparu profiadau byw gwerthfawr i’w rhannu’n lleol ac yn genedlaethol yn dibynnu ar y meini prawf adrodd.

Dylid ystyried dysgu o ddigwyddiadau fel cyfle i fod yn agored ac yn dryloyw ac mae’n gofyn am adrodd am ddigwyddiadau’n brydlon mewn diwylliant teg ac agored. Nid yw’n ymwneud â bwrw bai, gan fod digwyddiadau’n ymwneud â diogelwch cleifion yn gysylltiedig â’r system y mae’n ofynnol i unigolion weithio ynddi yn hytrach nag unigolion penodol sydd ynghlwm â digwyddiadau o’r fath.

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn ymgorffori Dyletswydd Gonestrwydd a ddaw i rym ym mis Ebrill 2023, ar gyfer gofal a gomisiynir gan y GIG. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau’r GIG ymgysylltu â chleifion a theuluoedd pan fydd mwy nag ychydig o niwed yn digwydd, sy’n annisgwyl ac yn anfwriadol.

Mae'n bwysig bod llais y claf neu ei deulu yn cael ei glywed a'i fod yn parhau i fod wrth wraidd unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal.

Adrodd a Llywodraethu

Fel gyda phob achos o adrodd am ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion, rhaid i sefydliadau'r GIG sicrhau eu Byrddau bod Digwyddiadau "Byth" wedi cael eu hymchwilio iddynt yn briodol, yn unol â'r polisi adrodd cenedlaethol. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd ac unrhyw wersi a ddysgwyd wedi'u rhannu ar draws y sefydliad i helpu i leihau'r risg y bydd Digwyddiadau "Byth" tebyg yn digwydd eto.

Dylai prosesau monitro cadarn fod ar waith i gefnogi'r gwaith o weithredu a chyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt ac i sicrhau cynaliadwyedd y camau hynny wrth symud ymlaen. Fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd, bydd Uned Gyflawni GIG Cymru yn monitro ac yn adolygu pob Digwyddiad "Byth", gan gynnwys y gwersi a ddysgir a gweithrediad amserol camau unioni. Lle y bo'n briodol, bydd Uned Gyflawni GIG Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau unigol i ddarparu cymorth a, neu i uwchgyfeirio unrhyw faterion sydd heb eu datrys drwy fframweithiau uwchgyfeirio presennol.